

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad Etifeddiaeth
y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: Seneddlechyd@cynulliad.cymru
Twitter: @Seneddlechyd

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Adroddiad Etifeddiaeth
y Pedwerydd Cynulliad**

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cylch gwaith y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith oedd archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar wariant, gweinyddiaeth a materion polisi, gan gynnwys: iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd cyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol. Roedd materion yn ymwneud ag iechyd a lles plant a phobl ifanc, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol, yn eistedd yn benodol o fewn cylch gwaith y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**.

Aelodau'r Pwyllgor

Aelod Pwyllgor

David Rees (Cadeirydd)
Alun Davies
John Griffiths
Altaf Hussain
Elin Jones
Lynne Neagle
Gwyn R Price
Kirsty Williams

Lindsay Whittle
Darren Millar

Plaid

Llafur Cymru
Llafur Cymru
Llafur Cymru
Ceidwadwyr Cymreig
Plaid Cymru
Llafur Cymru
Llafur Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru
Plaid Cymru
Ceidwadwyr Cymreig

Etholaeth neu Ranbarth

Aberafan
Blaenau Gwent
Dwyrain Casnewydd
Gorllewin De Cymru
Ceredigion
Torfaen
Islwyn
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Dwyrain De Cymru
Gorllewin Clwyd

Aelodau blaenorol y Pwyllgor

Aelod Pwyllgor

Mark Drakeford (cyn Gadeirydd)
Vaughan Gething (cyn Gadeirydd)
Leighton Andrews
Mick Antoniw
Rebecca Evans
Janet Finch-Saunders
William Graham
Ken Skates

Plaid

Llafur Cymru
Llafur Cymru
Llafur Cymru
Llafur Cymru
Llafur Cymru
Ceidwadwyr Cymreig
Ceidwadwyr Cymreig
Llafur Cymru

Etholaeth neu Ranbarth

Gorllewin Caerdydd
De Caerdydd a Phenarth
Rhondda
Pontypridd
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Aberconwy
Dwyrain De Cymru
De Clwyd

Yn ystod gwaith y Pwyllgor o graffu ar y **Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)** bu Mike Hedges AC, Gwyn R Price AC a Jenny Rathbone AC yn dirprwyo mewn cyfarfodydd perthnasol ar ran Mick Antoniw AC fel yr Aelod yn gyfrifol am y Bil a Vaughan Gething AC, a ddewisodd eithrio ei hun o'r trafodion gan ei fod wedi datgan cefnogaeth hirsefydlog dros y Bil. Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar y **Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)** bu Peter Black yn dirprwyo ar ran Kirsty Williams AC gan mai hi oedd yr Aelod yn gyfrifol am y Bil.

Cynnwys

Penawdau.....	1
Cyflwyniad.....	3
Craffu ar bolisi – gweithgaredd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion	5
01. Gwaith 'Tynnu sylw'	7
02. Gwaith mesur cynnydd:	13
03. Gwaith ymatebol ac amserol	18
04. Gwaith thematig y tymor hwy	23
Craffu deddfwriaethol – gweithgaredd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion..	29
01. Craffu ar Filiau	30
02. Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol	33
03. Is-ddeddfwriaeth	35
04. Craffu ar ôl y broses ddeddfu.....	37
Craffu ariannol – gweithgaredd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion.....	41
01. Craffu ar y Gyllideb	42
02. Craffu ariannol yn ystod y flwyddyn	43
03. Prif-ffrydio craffu ariannol mewn ymchwiliadau polisi a deddfwriaethol	45
Edrych tua'r Pumed Cynulliad - ymchwiliadau ar gyfer y tro nesaf	49
01. Iechyd	50
02. Gofal cymdeithasol.....	51
03. Ymgynghoriad ar – a chyhoeddi – y rhaglen waith	52

GWEITHGARWCH Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN YSTOD Y PEDWERYDD CYNULLIAD



25

ADRODDIAD
PWYLLGOR
WEDI'U
CYHOEDDI



150

CYFARFOD
PWYLLGOR
FFURFIOL

25

YMCHWILIAD
WEDI'U CYNNAL



20

LLYTHYR YN CYNWYS ARGYMHELLION I LYWODRAETH
CYMRU A CHYRFF CYHOEDDUS CYSYLLTIEDIG



776

YMDDANGOSIAD
GAN DYSTION



7

BIL WEDI'U CYFEIRIO
AT Y PWYLLGOR

7


MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL
WEDI'U CYFEIRIO AT Y PWYLLGOR

1,388

YMATEB I YMGYNGHORIADAU

Ffigur 1: Cwestiynau'r ymgynghoriad etifeddiaeth

- I ba raddau y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?
 - Beth oedd llwyddiant mwyaf y Pwyllgor?
 - Pe gallai'r Pwyllgor fod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol, beth fyddai hynny, a pham?
 - A yw gwaith y Pwyllgor wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng craffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth?
 - Gan edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, beth, yn eich barn chi, fydd y tair her fwyaf o ran iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?
-



Cyflwyniad

Diben

Nod yr adroddiad hwn yw adlewyrchu ein gweithgarwch ers ein sefydlu ym mis Mehefin 2011. Nid yw'n darparu dadansoddiad trylwyr o bob darn o waith yr ydym wedi'i wneud. Yn hytrach, mae'n nodi ein cyflawniadau allweddol ac yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd dros y pum mlynedd diwethaf, drwy gyfres o astudiaethau achos, gyda'r bwriad o lywio gwaith ein pwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad. Gall darllenwyr sydd am ganfod mwy am ymchwiliadau unigol gael gafael ar y wybodaeth hon drwy lincs yn yr adroddiad hwn, ac ar ein gwefan:

www.cynulliad.cymru/seneddiechyd.

Cefndir

Gyda bron i hanner cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei gwario bob blwyddyn ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae ein rhaglen waith yn y Pedwerydd Cynulliad wedi bod yn uchelgeisiol a heriol.

Mae rhaglen deddfwriaethol helaeth Llywodraeth Cymru ynghyd â thirwedd ariannol a pholisi sy'n fythol esblygu wedi galw am ystod eang o waith craffu ariannol, deddfwriaethol a pholisi dros y pum mlynedd diwethaf.

Ein gweithgarwch yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

Gellir rhannu ein gwaith i dri chategori cyffredinol: craffu ariannol, deddfwriaethol a pholisi. Mae ein hadroddiad yn cwmpasu pob categori yn ei dro.

Ein nod drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad oedd craffu ar ddatblygiadau a gweithredu polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, mae materion Ewropeaidd wedi cael eu prif-ffrydio ar draws y pwyllgorau. Er mai materion domestig oedd ein prif ffocws, rydym wedi ystyried materion Ewropeaidd sy'n berthnasol i'n gwaith ar nifer o achlysuron, yn arbennig fel rhan o'n hymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (gweler tudalen 9).

Ymdriniaeth

Yn ogystal ag adlewyrchu barn yr Aelodau, roeddem yn awyddus i sicrhau bod ein hadroddiad etifeddiaeth yn cael ei llywio gan farn y cyhoedd. Yn ystod haf 2015, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Gwahoddwyd pobl i rannu eu barn am ein gwaith dros y pum mlynedd diwethaf (gweler Ffigur 1), a hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd. **Mae pob ymateb wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan** a'i ddefnyddio i lywio ein hadroddiad.

Gweithgarwch y Pwyllgor (2011-2016)

- 25 o ymchwiliadau polisi, gyda gwaith dilynol ar 9 ohonynt
- 7 o filiau wedi'u cyfeirio i'r Pwyllgor i'w hystyried yn fanwl.
- 7 memorandwm cydsyniad deddfwriaethol wedi'u cyfeirio i'r Pwyllgor
- 1 ymchwiliad craffu ar ôl deddfu
- Ystyriaeth o 1 cyfres fanwl o reoliadau gwasanaethau cymdeithasol
- Craffu ar 5 o gyllidebau Llywodraeth Cymru, sef cyfanswm o dros £32 biliwn
- 1 ymchwiliad llawn i ddeiseb gyhoeddus
- 1 is-bwyllgor wedi'i sefydlu

Ffigur 2: Ymddangosiadau gan dystion

- **50** ymddangosiad gan weinidogion Llywodraeth Cymru
- **153** ymddangosiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru
- **16** ymddangosiad gan Aelodau'r Cynulliad a'u swyddogion
- **8** ymddangosiad gan swyddogion Llywodraeth y DU
- **80** ymddangosiad gan Fyrddau Iechyd Lleol
- **17** ymddangosiad gan lywodraeth leol
- **93** ymddangosiad gan elusennau
- **242** ymddangosiad gan sefydliadau meddygol
- **11** ymddangosiad gan gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth
- **59** ymddangosiad gan ddiwydiant a busnes
- **17** ymddangosiad gan y Comisiynwyr statudol a'u swyddogion
- **12** ymddangosiad gan yr heddlu a gwasanaethau prawf
- **13** ymddangosiad gan academyddion
- **5** ymddangosiad gan sefydliadau crefyddol

Craffu ar bolisi – gweithgaredd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

Fel arfer, roedd y gwaith craffu a wnaethom ar bolisi yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yn dod o fewn un o'r pedwar categori canlynol: gwaith 'tynnu sylw'; gwaith mesur cynnydd; gwaith ymatebol ac amserol; a gwaith thematig yn y tymor hwy.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff
sy'n ddemocrataidd i
gynrychioli'r
nau Cymru a'i phobl,
i ddeddfu
Cymru ac i ddwyn
Llywodraethol Cymru
i ddiwyfwrdd
Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

01. Gwaith ‘Tynnu sylw’

Nod llawer o'n hymchwiliadau oedd ceisio tynnu sylw at feysydd polisi a oedd, fel arall, yn cael eu hesgeuluso, neu feysydd lle roedd angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Wrth gynnal yr ymchwiliadau hyn, roeddem yn awyddus i dynnu sylw at bynciau a allai, fel arall, gael eu hanghofio, a cheisio sicrhau enillion pwysig mewn polisi ac ymarfer.

Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc

Yn 2011-12, pan ymgwymerwyd â'r **ymchwiliad i leihau'r risg o strôc**, strôc oedd trydydd prif achos marwolaeth yn y DU, a phrif achos unigol anabledd difrifol. Yng Nghymru, mae 11,000 o bobl bob blwyddyn yn cael strôc. Er bod pobl yn gyfarwydd â ffactorau risg trawiad ar y galon a chanser, roedd llawer llai o ymwybyddiaeth am risgiau strôc. Gwnaeth ein hymchwiliad i leihau'r risg o strôc bump argymhellad, gyda'r bwriad o ostwng lefelau un o'r prif achosion o anabledd a marwolaeth yng Nghymru.

Ers cynnal ein hymchwiliad, mae gofal a chanlyniadau i gleifion wedi gwella'n sylweddol ledled Cymru. Mae Grŵp Gweithredu Strôc Cymru Gyfan wedi arwain gwaith ar rai o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gennym, gan gynnwys ffibriliad atrïaidd, a mynediad prydlon i lawdriniaeth carotid i leihau'r risg o strôc. Roedd yr **adroddiad blynyddol** mwyaf diweddar ar gynllun cyflawni strôc Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y cleifion sy'n cael llawdriniaeth carotid o fewn amserlenni targed wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf.

Ymchwiliad i farw-enedigaethau

Roedd ein **ymchwiliad yn 2012-13 i farw-enedigaethau** yn tynnu sylw at y ffaith bod pedwar o fabanod yn farw-anedig yng Nghymru bob wythnos yn 2011. Er mai dyma'r math mwyaf cyffredin o farwolaeth ymysg plant yng Nghymru, mae lefelau ymwybyddiaeth ynghylch marw-enedigaeth yn isel ymysg y boblogaeth, a dealltwriaeth o'r achosion yn wael. Roeddem yn argymhell bod angen rhoi ystyriaeth frys i'r camau cymharol fach sydd wedi cael eu dyfeisio – neu y gellir eu dyfeisio'n weddol hawdd – i wneud gwahaniaeth i'r cyfraddau marw-enedigaethau yng Nghymru.


Pan wnaethom ein gwaith dilynol ar ein hargymhellion yn 2014-15, canfuwyd bod cryn gynnydd wedi'i wneud. Roedd hyn yn cynnwys creu rhwydwaith mamolaeth i lywio'r gwaith o safoni gofal ar draws Cymru; llunio dogfen genedlaethol yn nodi'r neges allweddol am farw-enedigaethau; cyflwyno pecyn hyfforddi cenedlaethol ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol; pecyn gwybodaeth i rieni i fynd i'r afael â'r gyfradd isel o archwiliadau post-mortem ar fabanod marw-anedig; a gwaith llywodraethol ar y cyd ledled y DU i gyflwyno dull safonol o gynnal adolygiadau marwolaethau amenedigol.

Enghreifftiau o ymchwiliadau ‘tynnu sylw’

- **Lleihau'r risg o strôc**
- **Marw-enedigaethau**
- **Effeithiau sylweddau seicoweithredol newydd**
- **Camddefnyddio alcohol a sylweddau**
- **Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig**

Ffigur 3: Dull arloesol o gynnal Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd

- **Briffio cyn-ymchwiliad** gan Heddlu Gwent am ei brofiadau o effaith y sylweddau seicoweithredol newydd ar gymunedau lleol
- **Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus** gan glywed yn uniongyrchol gan dros fil o aelodau o'r cyhoedd
- **Grwpiau ffocws** ym Merthyr Tudful a Wrecsam i glywed yn uniongyrchol gan staff rheng flaen
- **Ymweliadau** â'r prosiect LOTS (Wrecsam), Clwb Ieuenctid Forsythia (Merthyr Tudful) a DrugAid (Caerffili) i siarad â'r rhai y mae sylweddau seicoweithredol yn effeithio arnynt. Ymwelodd yr Aelodau, hefyd, â phencadlys DAN 24/7 yn Wrecsam, sef llinell gymorth genedlaethol Cymru ar gamddefnyddio sylweddau
- Mae'r Pwyllgor hefyd wedi defnyddio **Storify** i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am hynt yr ymchwiliad
- **Cynhyrchwyd adroddiad cryno** fel canllaw cyflym, hawdd ei ddarllen ein gwaith
- **Cymryd rhan yn y gynhadledd flynyddol ar sylweddau seicoweithredol ledled y DU**, cyfarch arbenigwyr yn y maes
- Trafodaeth, drwy wahoddiad Swyddfa'r DU o Senedd Ewrop, gyda'r prif rapporteur (ASE o wlad Pwyl Michał Boni) a swyddogion Llywodraeth y DU mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid sylweddau seicoweithredol ar gynigion deddfwriaethol drafft yr UE



Astudiaeth Achos 1: Ymchwiliad i effaith sylweddau seicoweithredol newydd

Ar beth y gwnaethom edrych a pham?

Penderfynwyd ystyried y mater hwn oherwydd bod y nifer sy'n defnyddio **sylweddau seicoweithredol newydd** wedi cynyddu yng Nghymru, ac mewn mannau eraill, yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd sylweddau seicoweithredol newydd yn cael eu marchnata fel dewisiadau amgen mwy diogel a chyfreithiol i gyffuriau anghyfreithlon, er y gallent fod yn gaethiwus a pheryglus. Roeddem yn pryderu am y diffyg ymwybyddiaeth o'r niweidiau iechyd a chymdeithasol a achosir gan y sylweddau hyn, nid yn unig ymysg y cyhoedd ond ymysg staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus hefyd.

Pa ddull a fabwysiadwyd gennym?

Gwahoddwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar drwy ddulliau traddodiadol, ond mabwysiadwyd cyfres o ddulliau gweithredu mwy arloesol i lywio ein gwaith hefyd (gweler crynodeb yn Ffigur 3). Cafodd datblygiadau perthnasol ar lefel yr UE a'r DU eu hystyried, ynghyd ag ymgysylltu'n weithredol â'r Swyddfa Gartref a'r Comisiwn Ewropeaidd. Roeddem hefyd yn awyddus i ddefnyddio arferion gorau rhyngwladol, gan archwilio dulliau a fabwysiadwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon a Seland Newydd yn ystod ein gwaith.

Beth oedd effaith ein gwaith ar sylweddau seicoweithredol newydd?



Siaradodd yr Arolygydd Catherine Hawke o Heddlu Gwent am effaith ein gwaith ar sylweddau seicoweithredol newydd yn lansiad Heddlu Gwent a Chymunedau yn Gyntaf o'r adnodd addysgol "Lethal Highs" (Cyffuriau Penfeddwol Farwol). Cynhaliwyd y lansiad yn y Senedd ar 24 Chwefror 2016. Mae trawsgrifiad llawn o'r fideo ar gael yn Atodiad A i'n hadroddiad.

Gwersi a ddysgwyd o'n hymchwiliadau codi ymwybyddiaeth ac argymhellion ar gyfer ein Pwyllgor olynol

Gwers 1: Diogelu amser ar gyfer gwaith codi tynnu sylw

Mae gan bynciau ymchwiliadau sy'n atseinio gyda'r cyhoedd yn gyffredinol ac sy'n tynnu sylw at feysydd polisi a gaiff eu hesgeuluso fel arall, y potensial, yn aml iawn o gael yr effaith fwyaf o ran pwyllgorau.

Argymhelliad 1: Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod cyfran o'i amser yn cael ei ddiogelu ar gyfer ymchwiliadau 'tynnu sylw'.

Gwers 2: Casglu tystiolaeth yn arloesol ac yn hyblyg

Drwy fabwysiadu dulliau amgen, mwy arloesol o gasglu tystiolaeth, gellir cael cipolwg amhrisiadwy gan y rhai y mae'r materion dan sylw yn effeithio fwyaf uniongyrchol arnynt. Gall gwaith i gymharu ymarfer Cymru â gwledydd eraill fod o fudd hefyd.

Argymhelliad 2: Dylai ein pwyllgor olynol barhau i fabwysiadu ymagwedd hyblyg ac arloesol at gasglu tystiolaeth drwy amrywiaeth o ddulliau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei fod yn ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl y mae ei waith yn effeithio arnynt, ac sydd â dioddordeb yn y gwaith hynnw.

Argymhelliad 3: Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol adeiladu ar y gwaith cymharol cyfyngedig a gynhaliwyd gennym drwy chwilio am ragor o enghreifftiau o arferion gorau rhyngwladol a theithio ymhellach.

Gwers 3: Cyfathrebu ein gwaith

Buddsoddi amser mewn darparu diweddariadau rheolaidd a hygyrch ynghylch cynnydd a chanlyniadau ymchwiliadau pwyllgor i gadw mewn cysylltiad â'r rhai yn y ddolen a fuddsoddodd eu hamser a'u profiad. Mae hefyd yn galluogi'r Pwyllgor i chwilio am ragor o wybodaeth am lefel yr effaith a gafodd ei waith.

“Mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer sylweddol o ymholiadau yn y Pedwerydd Cynulliad ac mae wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau. Fodd bynnag mae'n annhebygol bod llawer o staff y GIG ac aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi'i wneud. Mae angen dangos gwaith a phroffil y Pwyllgor, ynghyd â'r hyn a gyflawnwyd, yn fwy effeithiol i'r holl randdeiliaid.”

Ymateb Cydffederasiwn GIG Cymru i'n hymgyngoriad etifeddiaeth

Argymhelliad 4: Dylai ein Pwyllgor olynol ymrwymo i ddarparu diweddariadau rheolaidd a hygyrch am gynnydd a chanlyniadau ei waith.

Gwers 4: Mynd i'r afael â meysydd lle rhennir cyfrifoldeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

Nid oedd y ffaith nad oedd nifer o feysydd polisi sy'n berthnasol i ymchwiliad y sylweddau seicoweithredol newydd wedi'u datganoli i Gymru wedi ein rhwystro rhag dylanwadu'n adeiladol ar lefelau Cymru, y DU nac Ewrop. Er ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod, roedd materion cymhwysedd yn cynnig cyfleoedd i annog cydweithredu trawsffiniol, rhannu arfer gorau, a dangos y gall Cymru arwain y ffordd yn y maes hwn.

Argymhelliad 5: Ni ddylai ein pwyllgor olynol osgoi meysydd polisi lle mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng llywodraethau datganoledig, cenedlaethol a goruwchgenedlaethol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai pwyllgorau geisio dilyn llwybrau dylanwad anffurfiol yn ogystal â llwybr dylanwad ffurfiol, nid drwy gynadleddau cenedlaethol a digwyddiadau rhanddeiliaid yn unig lle y bydd pobl allweddol a rhwydweithiau yn bresennol.

Cenedlaethol Cymru

Cenedlaethol Cymru
wy'n cael ei ethol yn
sadd i gynrychioli
Cymru a'i phobl
ar gyfer Cymru ac i
rwydith Cymru i gyfif.

0300
020 2086 2086
www.assembly-wales.org

National Assembly for Wales

The National Assembly for Wales
is the democratically elected body
that represents the interests of
Wales and its people, holds the
Welsh Government to account

T 0300 020 2086
www.assembly-wales.org



02. Gwaith mesur cynnydd:

Wrth lunio ein rhaglen ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad roeddem yn awyddus i asesu perfformiad a mesur cynnydd mewn perthynas â pholisïau a mentrau presennol Llywodraeth Cymru.

Wrth gynnal yr ymchwiliadau hyn roeddem am ddwyn Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig i gyfrif a sicrhau bod strategaethau, cynlluniau cyflawni, canllawiau clinigol ac argymhellion blaenorol y Pwyllgor yn cael eu gweithredu.

Ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwyn

Ym mis Mai 2010 adroddodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Iechyd a Lles y Trydydd Cynulliad ar **wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru**. Daeth i'r casgliad bod angen gwella'r gwasanaeth yn sylweddol. Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, roeddem yn awyddus i ganfod pa gynnydd a wnaed.

Yn hytrach na chynnal adolygiad eang o ddarpariaeth yn y maes hwn, penderfynwyd cynnal ymchwiliad un-dydd a oedd yn canolbwyntio ar argymhellion a wnaed yn adroddiad ein rhagflaenydd. Ein nod oedd canfod manau lle roedd cynnydd wedi digwydd, yn ogystal â meysydd lle roedd angen datblygu pellach.

Daethom i'r casgliad fod llawer iawn wedi'i gyflawni yn y cyfnod ers yr ymchwiliad gwreiddiol, ond bod angen ymdeimlad cryfach o afael strategol i gynnal ac ehangu cynnydd yn y dyfodol. Oherwydd ein hadroddiad, cafodd sylw'r cyfryngau ei dynnu at y pwnc, ac fe'i croesawyd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

Ymchwiliad i weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru

Yn ystod Gwanwyn 2014, cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch a oedd Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser.

Daethom i'r casgliad bod rhai meysydd – gan gynnwys ymchwil, sgrinio cancer, a gofalu am bobl ar ddiwedd eu bywydau – wedi gwella ers cychwyn y Cynllun yn 2012. Fodd bynnag, wrth **siarad â phobl sydd wedi cael cancer**, nid oedd eu profiadau bob amser yn cyfateb i'r dyheadau a nodir yn y Cynllun.

Yn dilyn ein hymchwiliad, **adroddodd** Llywodraeth Cymru nad oedd ei gwariant ar ofal cancer erioed wedi bod mor uchel. Yn gynharach eleni hefyd, adroddwyd bod **amseroedd aros am driniaeth cancer** a **chyfraddau goroesi cancer** yn parhau i wella yng Nghymru.

Enghreifftiau o ymchwiliadau monitro cynnydd

- **Atal cyflwr thrombo-emoledd gwythiennol**
- **Gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser**
- **Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes a'i ddatblygiad yn y dyfodol**
- **Gwasanaethau cadeiriau olwyn**
- **Gwasanaethau Orthodontig**

Astudiaeth Achos 2: Ymchwiliad i atal cyflwr thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) ymhlith cleifion mewn ysbytai

Ar beth y gwnaethom edrych, a pham?

Yn 2010, roedd tua 900 o farwolaethau yng Nghymru yn gysylltiedig â thrombosis yn yr ysbyty (HAT) neu oherwydd y cyflwr. Roedd hyn yn uwch na'r nifer cyfunol o farwolaethau sy'n cynnwys MRSA (47), canser y fron (614) ac AIDS (9) yn yr un flwyddyn.

Pa ddull a fabwysiadwyd gennym?

Cynhaliwyd ymchwiliad 'un-dydd' i roi sylw penodol i'r pwnc hwn. Nod y dull a fabwysiadwyd gennym oedd casglu'r holl dystiolaeth lafar berthnasol yn ystod un cyfarfod dydd lau.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Hydref 2012, a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ddiwedd y flwyddyn honno. Yn unol â'n hamcan o geisio gwneud nifer fach o argymhellion allweddol yn y meysydd mwyaf teilwng o sylw, dim ond pump o argymhellion a wnaethom.

"Rwyf wedi gwranddo'n ofalus ar yr hyn ddywedodd yr Aelodau, a byddaf yn sicr yn awr yn ei wneud (cydymffurfio â chanllawiau perthnasol NICE) yn flaenoriaeth haen 1... ar ôl gwranddo ar yr Aelodau eto ac ar ôl darllen yr adroddiad, credaf y dylai hynny fod yn flaenoriaeth haen 1."


*Lesley Griffiths AC,
y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Rhagfyr 2012*

Thrombo-emboledd gwythiennol (VTE) sy'n digwydd pan mae llestr gwaed yn cael ei rwystro gan geulad gwaed a gaiff ei symud o'i safle gwreiddiol

Thrombosis yn yr ysbyty (HAT) yw unrhyw achos o VTE sy'n codi yn ystod y 90 diwrnod ar ôl derbyn i ysbyty

I sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal, aethom ar drywydd ein hargymhellion yn ystod haf 2014.

Beth oedd effaith ein gwaith ar atal VTE?



Dr Simon Noble, yw Cyfarwyddwr Meddygol Cymru ar gyfer Thrombosis UK, ac un o dystion allweddol ein hymchwiliad. Fe siaradodd am effaith ein gwaith ar atal VTE yn nigwyddiad y Llywydd i nodi'r Pedwerydd Cynulliad ar 1 Mawrth 2016.

Mae trawsgrifiad llawn o'r fideo ar gael yn Atodiad B i'n hadroddiad.

Ffigur 4: Beth yw argymhelliad “SMART”?

- **Penodol** – targedu maes penodol ar gyfer gwella
- **Mesuradwy** – mesur neu, o leiaf, awgrymu dangosydd o gynnydd
- **Aseiniadwy** – nodi pwy fydd yn ei wneud
- **Realistig** – nodi pa ganlyniadau realistig y gellir eu cyflawni, gyda’r adnoddau sydd ar gael
- **Amser** – nodi erbyn pryd y dylid cyflawni’r mater(ion)



Gwersi a ddysgwyd o'n hymchwiliadau monitro cynnydd, ac argymhellion ar gyfer ein pwyllgor olynol

Gwers 5: Cynnwys camau dilynol yn yr holl feysydd gwaith

Mae canfod i ba raddau y mae polisiâu, strategaethau, cynlluniau cyflawni, canllawiau clinigol ac argymhellion wedi cael eu gweithredu yr un mor bwysig a dylanwadol, yn aml, a'r gwaith cychwynnol o'u creu. Mae cadw'r pwysau hwn yn greiddiol i waith craffu da – nid cyddigwyddiad yw y gall pwyllgor gyhoeddi ei fwriad i ddilyn ar gynnydd mewn rhai meysydd polisi arwain at fwrlwm o weithgaredd perthnasol.

Argymhelliad 6: Dylai ein pwyllgor olynol adeiladu camau dilynol i bob maes gwaith fel mater o drefn. Mae hyn yn sicrhau y caiff momentwm ei gynnal a bod amser gwerthfawr a gaiff eu dreulio gan Aelodau a rhanddeiliaid ar bynciau penodol yn cael effaith hirdymor amlwg.

Gwers 6: Gwneud argymhellion "SMART"

Yn aml, gall y weithred o fonitro perfformiad a gwelliant dynnu sylw at wendidau'r targedau, argymhellion neu amcanion gwreiddiol, yn erbyn y cynnydd a gaiff ei fesur. Gall argymhellion "SMART" (gweler Ffigur 4) wella gallu'r pwyllgor i roi asesiad cadarn a theg o'r cynnydd a wnaed, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn perthynas â'i gweithredoedd a'i pherfformiad.

Argymhelliad 7: Dylai ein pwyllgor olynol fabwysiadu ymagwedd "SMART" tuag at ei argymhellion. Efallai y bydd hefyd am ystyried buddsoddi mwy o amser i brofi ei argymhellion gydag arbenigwyr yn y maes perthnasol cyn cyhoeddi er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol ag y gallant fod.

Gwers 7: Defnyddio'r fformat ymchwiliad "un-dydd"

Cynhaliwyd cyfres o ymchwiliadau "un-dydd" yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Er ein bod yn nodi fod rhai o'r ymatebwyr i'n **ymgyngoriad etifeddiaeth** wedi awgrymu efallai yr hoffem ystyried cynnal llai o ymchwiliadau, a threiddio'n ddyfnach iddynt, credwn fod ein dull wedi ein galluogi i annog gwelliannau i wasanaethau na fyddai, efallai, wedi digwydd fel arall.

Argymhelliad 8: Dylai ein pwyllgor olynol neilltuo cyfran o'i amser i ymchwiliadau undydd. Gall y fformat hwn alluogi'r pwyllgor i ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o feysydd pwnc, yn arbennig os yw'n wynebu llwyth gwaith deddfwriaethol trwm.

03. Gwaith ymatebol ac amserol

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, aethom ati i chwilio am gyfleoedd i ymateb i faterion a oedd yn dod i'r amlwg a oedd o bwysigrwydd cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Wrth gynnal yr ymchwiliadau hyn roeddem am ymateb yn gyflym i faterion o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd. Roeddem yn awyddus hefyd i ddwyn Llywodraeth Cymru (a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig) i gyfrif a dylanwadu'n amserol a rhagweithiol ar ei ffordd o ymdrin â materion a oedd yn dod i'r amlwg.

Ymchwiliad i achosion 2013 o'r frech goch


Cafwyd yr achosion mwyaf o'r frech goch a welwyd yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Gorffennaf 2013. Roedd 1,455 o achosion o'r frech goch wedi cael eu cofnodi ledled Cymru yn ystod y cyfnod. At ddibenion cymharu,

roedd llai nag 20 o achosion o'r frech goch wedi'u cadarnhau yng Nghymru yn 2011. Roedd yr achosion mwyaf niferus o amgylch ardal Abertawe, gyda 660 o achosion wedi'u cofnodi.

Ymatebasom yn gyflym i'r newyddion am yr achosion, gan gyhoeddi ein bwriad i ystyried y ffactorau a arweiniodd atynt, y camau a gymerwyd gan weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ymateb iddo, a'r gwersi y gellid eu dysgu i atal achosion yn y dyfodol.

Cafodd y materion allweddol a nodwyd gennym eu hystyried gan y tîm aml-asiantaeth a ymatebodd i'r achosion, gan lywio'r argymhellion yn **adroddiad** dilynol y tîm i atal rhagor o achosion. Mewn **diweddariad a gawsom yn 2015**, tynnodd y Prif Swyddog Meddygol sylw at y brechu gwell ar gyfer y frech goch, clwy'r pennau a rwbelâ (MMR) yn y grwpiau oedran targed: "Mae'n gam enfawr ymlaen a'n gwir ffocws nawr yw cadw'r momentwm i fynd."

Nifer yr hysbysiadau fesul wythnos yn ystod y cyfnod: wythnos yn cychwyn 29 Hydref 2012 – yr wythnos yn cychwyn 24 Mehefin 2013



Ffynhonnell:
**Iechyd
Cyhoeddus
Cymru**

Enghreifftiau o ymchwiliadau ymatebol/amserol

- Proses gwyno'r GIG
- Gofal heb ei drefnu
- Gohebiaeth yn ymwneud â'r achos cenedlaethol ar gyfer newid y gwasanaeth iechyd
- Achosion o'r frech goch
- Gweithlu meddygon teulu
- Perfformiad y gwasanaeth ambiwlans
- Trosglwyddo cyfrifoldeb am y Gronfa Byw'n Annibynnol

Perfformiad y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddwyd ein bwriad i gynnal ymchwiliad byr ar berfformiad gwasanaethau ambiwlans yng ngoleuni'r sylw sylweddol a chyson yn y cyfryngau, yn enwedig o ran amseroedd ymateb ambiwlansys. Bwriad yr ymchwiliad hwn oedd:

- gwaith dilynol ar argymhellion a wnaeth **adolygiad strategol yr Athro Siobhan McClelland** o Wasanaethau Ambiwllans Cymru;
- dwyn y rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu gwasanaethau ambiwlans i gyfrif am eu perfformiad;
- ein galluogi i gyfrannu'n rhagweithiol at y ddatl genedlaethol barhaus ynglŷn â dyfodol gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru.

Gwnaethom nifer o argymhellion gyda'r bwriad o wneud gwelliannau i oedi wrth drosglwyddo cleifion, perfformiad yn erbyn targedau amser ymateb, trefniadau staffio, a chludo cleifion nad ydynt yn achosion brys.

Pan aethom yn ôl at yr ymchwiliad ymhen llai na 12 mis, i fesur cynnydd, dywedwyd wrthym y bu cynnydd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gwell arweinyddiaeth ar lefel uwch, defnydd mwy effeithiol o ambiwlansys a chyflwyno model ymateb clinigol brys newydd. Cyhoeddwyd hefyd y byddai dangosyddion ansawdd ambiwlans newydd yn cael eu cyhoeddi bob chwarter o fis Ionawr 2016, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau clinigol a phrofiad cleifion.

Mae oedi wrth drosglwyddo cleifion – un o'n pryderon allweddol – wedi gostwng ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd byrddau iechyd, er y daethom i'r casgliad yn ein gwaith dilynol diweddar y bydd angen cynnal y gwelliant a gwella adrodd cenedlaethol dros y misoedd i ddod.

Beth yw'r model ymateb clinigol brys newydd?

Mae'r model newydd, sy'n cael ei dreialu am flwyddyn ar hyn o bryd, yn categorio galwadau 999 yn rhai coch, oren a gwyrdd:

- **Coch:** bygythiad uniongyrchol i fywyd. Y targed yw y bydd 65 y cant o ymatebion brys yn cyrraedd o fewn 8 munud.
- **Oren:** difrifol, ond nid oes bygythiad uniongyrchol i fywyd.
- **Gwyrdd:** difrys (yn aml gllir eu rheoli gan wasanaethau iechyd eraill) gydag asesiad clinigol dros y ffôn.

Astudiaeth Achos 3: Ymchwiliad i broses gwyno'r GIG

Ar beth y gwnaethom edrych a pham?

Ar 16 Gorffennaf 2014, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth lafar ar broses gwyno'r GIG yng Nghymru. Diben y gwaith hwn oedd:

- ystyried effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion yn GIG Cymru;
- tynnu sylw at yr hyn y gellid eu dysgu o adolygiadau diweddar o ymdrin â chwynion yng Nghymru a Lloegr;
- dylanwadu ar y broses gwynion yn y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

Roedd yn amlwg i ni bod y cyhoedd yn edmygu ac yn gwerthfawrogi'r GIG, y gwasanaeth a ddarperir ganddo a'r staff sy'n gweithio ynddo. Fodd bynnag, roedd adroddiadau fel **Ymddiried mewn gofal a Defnyddio cwynion yn rhodd**, a gyhoeddwyd yn ystod haf 2014 – yn dangos bod angen gwella'n sylweddol ar ymdrin â chwynion yng Nghymru. Roedd y broses gwyno yng Nghymru a Lloegr wedi cael cryn sylw yn y wasg genedlaethol, ac roeddem am sicrhau ein bod yn ymchwilio'n fanwl ac yn gyhoeddus i bob gwybodaeth berthnasol.

Pa ddull a fabwysiadwyd gennym?

O gofio pa mor bwysig yw'r maes polisi hwn, a lefel y diddordeb cyhoeddus ynddo, roeddem am ymateb gyda darn o waith amserol a phenodol. Roeddem am osgoi dyblygu'r gwaith a wneir gan yr adolygiadau manwl, a ystyriodd dystiolaeth gan gyhoedd Cymru. Felly, cyhoeddwyd galwad wedi'i thargedu ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan gyrrff penodol i ategu'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael.

Casglwyd ein tystiolaeth a chyhoeddwyd ein casgliadau o fewn wyth wythnos ar ôl cyhoeddi ein bwriad i edrych ar y pwnc. Roedd hyn yn ein galluogi i ddylanwadu ar y camau nesaf ar gyfer proses gwyno'r GIG yng Nghymru a dangos i bobl Cymru bod y maes pwnc pwysig hwn wedi cael y flaenoriaeth a oedd yn ddyladwy iddo.

Beth oedd effaith ein gwaith ar broses gwynion y GIG?

Mae nifer o gamau wedi'u cymryd mewn ymateb i'n gwaith ar ymdrin â chwynion. Yn unol â'n hargymhelliad, mae ymdrin â chwynion yn amserol ac ymatebol wedi'i nodi fel blaenoriaeth, bellach, yn Fframwaith Canlyniadau'r GIG. Mae'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol hefyd wedi bod yn arwain ar nifer o ffrydiau gwaith sy'n anelu at sicrhau dull cyson o ymdrin â chwynion ar draws GIG Cymru. Mae papur gwyrdd 2015 Llywodraeth Cymru – **Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd** – yn ystyried rhai o'r camau tymor hwy a nodwyd yn ein gwaith, gan gynnwys yr angen am well rheoleiddio o ran y broses gwyno ac ystyried rôl cynghorau iechyd cymuned o ran cynrychioli llais y claf.

Ffigur 5: Adroddiadau Cymru a Lloegr ar ymdrin â chwynion yn y GIG

‘Defnyddio cwynion yn rhodd’ (Gorffennaf 2014)

Awdur yr adroddiad: Keith Evans

Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad tri mis o ymdrin â chwynion o fewn GIG Cymru, o dan arweiniad Keith Evans (cyn-Brif Weithredwr Panasonic UK). Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ar 2 Gorffennaf 2014 a gwnaeth 109 o argymhellion.

‘Ymddiried mewn gofal’ (Mai 2014)

Awduron yr adroddiad: Yr Athro June Andrews a Mark Butler

Ym mis Mai 2014, cyhoeddwyd adroddiad ar adolygiad a gynhaliwyd o Ysbyty Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot. Nododd yr adroddiad hwn fater a oedd yn peri pryder, yn ymwneud â rheolaeth wrthwynebus ac araf o ymdrin â chwynion. Roedd prif argymhelliad yr adroddiad yn galw am ddiwygio gweithdrefnau lleol ar ddigwyddiadau andwyol a chwynion i ennyn hyder a meithrin ymddiriedaeth y staff a'r cyhoedd a hyder yn eu heffeithiolrwydd.

‘Putting patients back in the picture’ (Hydref 2013)

Awduron yr adroddiad: Y Gwir Anrhydeddus Ann Clwyd AS a'r Athro Tricia Hart

Ym mis Mawrth 2013, i ymateb i adroddiad Robert Francis i'r methiannau yn Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford, cafodd y Gwir Anrhydeddus Ann Clwyd AS a'r Athro Tricia Hart, eu comisiynu gan Brif Weinidog y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Iechyd i gynnal adolygiad o'r ffordd o ymdrin â chwynion mewn ysbytai yn Lloegr. Canolbwynt yr adolygiad oedd ysbytai aciwt, ond casglwyd tystiolaeth mewn perthynas â lleoliadau gofal eraill. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 28 Hydref 2013.



Gwersi a ddysgwyd o'n hymchwiliadau ymatebol ac amserol, ac argymhellion ar gyfer ein pwyllgor olynol

Gwers 8: Diogelu amser ar gyfer gwaith adweithiol

Mae ymateb mewn ffordd amserol i faterion sydd o bwys sylweddol i'r cyhoedd yn rhan bwysig o rôl y pwyllgor. Gall sicrhau bod digon o le ar gyfer trafodaeth gyhoeddus gadarn gynyddu'r tryloywder sy'n gysylltiedig â mater sy'n dod i'r amlwg a gallu gyflymu unrhyw ymateb angenrheidiol. Gall hefyd helpu i sicrhau bod profiadau'r rhai y mae'r mater yn effeithio fwyaf uniongyrchol arnynt, neu'r arbenigwyr pennaf yn y maes perthnasol, yn cael eu dwyn ymlaen a'u defnyddio i lywio a dylanwadu a rhoi hwb i'r camau angenrheidiol.

Rydym yn falch o'r gwaith ymatebol a wnaethom. Fodd bynnag, credwn y gallai mwy fod wedi'i wneud i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfyngwyd ar ein hyblygrwydd ar adegau gan ymrwymadau i ymchwiliadau eraill a oedd yn digwydd a gwaith craffu deddfwriaethol. Serch hynny, credwn fod cyfleoedd wedi'u colli ar brydiau i addasu ein hamserlen i wneud lle ar gyfer materion amserol a dangos yr ystwythder sydd i'w ddisgwyl gan bwyllgor dylanwadol.

Argymhelliad 9: Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod cyfran o'i amser yn cael ei ddiogelu ar gyfer ymchwiliadau 'ymatebol neu amserol'. Dylid cadw digon o hyblygrwydd yn ei raglen i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer materion o bwys sy'n codi, ac ymateb iddynt.

Gwers 9: Lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith adweithiol

Wrth ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg, gall nifer o risgiau godi. Os yw partïon eraill sydd â diddordeb yn y mater yn lansio gwaith ymatebol tebyg ar yr un pryd, gallai hyn ddyblygu ymdrechion neu gallai agweddau ar y gwaith sy'n gorgyffwrdd, ei gwneud yn amhosibl ystyried yr holl wybodaeth. At hynny, gall amser fod yn gyfyngedig iawn i unigolion neu sefydliadau perthnasol baratoi'r wybodaeth sydd ei hangen i lywio gwaith y pwyllgor, a gellir ystyried y gwaith craffu yn rhywbeth arwynebol.

Argymhelliad 10: Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod unrhyw waith ymatebol a wna wedi'i deilwra a'i ffocysu, a'i fod yn cyfleu'n glir o'r dechrau beth yw'r canlyniadau a fwriedir. Diben hyn yw lleihau effaith yr amserlenni tynn sydd eu hangen ar dystion neu ymgylchreion y mae wedi gofyn am wybodaeth ganddynt a rheoli disgwyliadau ynghylch graddfa a natur ddisgwyliedig gwaith a chanlyniadau'r Pwyllgor.

04. Gwaith thematig y tymor hwy

I ategu rhai o'n hymchwiliadau byrrach, cynhaliwyd nifer o ddarnau o waith mwy hirdymor. Cynhaliwyd yr ymchwiliadau hyn gyda'r bwriad o ystyried pynciau a oedd yn eang a chymhleth eu natur, a/neu'n debygol o ymddangos mewn deddfwriaeth arfaethedig.

Gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddwyd ein bwriad i gynnal ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Ein nod oedd cynnal sgwrs heriol ac adeiladol am weithgareddau ac effeithiolrwydd yr Arolygiaeth o ran sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaethau gofal iechyd.

Cafodd ein hymchwiliad ei fframio a'i amseru i ddilyn cyhoeddi adroddiad Ymchwiliad Francis, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw ym mis Gorffennaf 2013. Roedd hefyd yn ceisio rhagweld cyhoeddi cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol.

Gwnaethom un argymhelliad: bod angen i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad sylfaenol o swyddogaethau craidd a diben Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac y dylid cynnal yr adolygiad hwn ar frys.

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad, cafodd Ruth Marks, Cyn-gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ei phenodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i arwain **adolygiad o waith yr Arolygiaeth**. Yn dilyn ein gwaith ni, a gwaith Ruth Marks, **cyhoeddodd y Gweinidog gynigion i ddeddfu er mwyn gwella ansawdd a llywodraethu yn y GIG**, gan gynnwys gwella annibyniaeth yr arolygiaethau a'r posibilrwydd o uno Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Enghreifftiau o waith thematig tymor hwy

- Gofal preswyl i bobl hŷn
- Y cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd
- Gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Mynediad at dechnolegau meddygol
- Goblygiadau cyfleusterau toiled cyhoeddus annigonol o ran iechyd cyhoeddus



Newyddion y BBC: Cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r corff gwarchod iechyd

Mynediad at dechnolegau meddygol

Cytunwyd ym mis Mehefin 2012 i ymgymryd â gwaith ar fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru. Mae llawer o arloesedd y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gorwedd ym maes technolegau meddygol a chynorthwyol, ond ychydig iawn o sylw oedd yn cael ei roi i'r pwnc hwn. Aethom ati, felly, i archwilio'r prosesau yng Nghymru i gael mynediad at dechnolegau meddygol, ac ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'r maes datblygiad pwysig hwn.

I lywio ein dull o weithredu, ac i gydnabod natur gymhleth y pwnc hwn, cafodd ymgynghoriad ar gwmpas yr ymchwiliad ei lansio ym mis Awst 2012. Aethom ati i ganfod barn rhanddeiliaid ar beth y dylai'r cylch gorchwyl ei gynnwys, ac ar ba agweddau ar fynediad at dechnolegau meddygol y dylid canolbwyntio. Cynhaliwyd seminar anffurfiol ym mis Mawrth 2013 hefyd, lle y trafodwyd meysydd posibl ar gyfer ymchwiliad gyda rhanddeiliaid gwahoddedig.

Yn dilyn y gwaith hwn cyn yr ymchwiliad, cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth ysgrifenedig, casglwyd dystiolaeth lafar dros gyfnod o 8 mis a chynhaliwyd cyfanswm o 20 o sesiynau dystiolaeth. Gwnaethom 13 o argymhellion, gyda'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn canolbwyntio ar greu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a symlach tuag at fabwysiadu technoleg feddygol.

I lywio'r ddadl ar ein hadroddiad yn y cyfarfod llawn, gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol i drafod ein argymhellion ac ymateb Llywodraeth Cymru gyda ni:



Dr Nazia Hussain, Meddyg Teulu a chynrychiolydd Coleg Brenhinol yr Ymymarferwyr Cyffredinol Cymru. Mae trawsgrifiad llawn o'r fideo ar gael yn Atodiad C i'n hadroddiad.

Wrth ymateb i'n hadroddiad yn y Siambr, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth yr Aelodau:

"Ein bwriad yn awr yw adeiladu ar yr argymhellion i sefydlu trefn genedlaethol a strategol ar gyfer adnabod a dewis technoleg feddygol. Bydd hynny yn helpu sicrhau'r offer a'r driniaeth fwyaf addas ac effeithiol i bobl yma yng Nghymru."

*Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
25 Chwefror 2015*

Ein grŵp cyfeirio allanol ar ofal preswyl

Sefydlwyd ein grŵp cyfeirio allanol ar ofal preswyl i gysgodi ein gwaith ac ystyried y dystiolaeth a gawsom yng ngoleuni eu profiadau eu hunain... Roedd yn cynnwys pobl a oedd ag aelodau o'r teulu naill ai'n parhau i fod mewn gofal preswyl neu wedi bod mewn gofal preswyl yn ddiweddar. Ystyriwyd barn y grŵp drwy gydol yr ymchwiliad, a chafodd ein casgliadau a'n hargymhellion eu profi yn erbyn profiadau ei aelodau. Cafodd casgliadau terfynol y grŵp eu cynnwys fel rhan o'n hadroddiad.

Rydym yn ddiolchgar i aelodau'r grŵp, ac i Age Cymru a Croesffyrdd Cymru (Carers Trust Cymru, bellach) am hwyluso gwaith y grŵp.

Camau gweithredu allweddol a nodwyd gan y grŵp cyfeirio allanol

- Gwellu'r ddarpariaeth o ran gwybodaeth, cymorth ac arweiniad digonol a phriodol
- Adeiladu system gofal o amgylch anghenion yr unigolyn
- Gwellu'r gydnabyddiaeth a hyfforddiant staff gofal
- Cynnwys y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol yn y broses arolygu a rheoleiddio
- Sicrhau trefn ariannu decach
- Cynllunio gwasanaethau gofal integredig ac addas i'r dyfodol
- Codi lefel y cymorth ar gyfer gofalwyr, a chydabyddiaeth ohonynt

"We were delighted to work closely with the Committee throughout its inquiry into residential care in Wales. This was an extremely positive experience for all involved. I believe that the Committee should be commended for its commitment to ensuring that individuals with direct experience of care provision were able to help shape the inquiry, and to directly contribute their own views and experiences to the process."

Graeme Francis, Age Cymru – cyd-hwylusydd y grŵp cyfeirio allanol



Astudiaeth Achos 4: Ymchwiliad i ofal preswyl i pobl hŷn

Ar beth y gwnaethom edrych a pham?

Nod ein hymchwiliad oedd archwilio sut mae pobl hŷn yn mynd i mewn i ofal preswyl a pha mor effeithiol yw'r sector gofal preswyl o ran diwallu eu hanghenion. Roeddem hefyd yn awyddus i ystyried cyfeiriad gofal preswyl yng Nghymru yn y dyfodol, a dewisiadau amgen i'r gofal hwnnw, yn arbennig yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio a phatrymau newydd o ran darparu gwasanaeth.

Pa ddull a fabwysiadwyd gennym?

O ystyried ehangder posibl y darn hwn o waith, ymgynhorwyd ar gwmpas yr ymchwiliad cyn pennu ein cylch gorchwyl. Dilynyd themâu penodol, wedyn, i sicrhau bod holl yr feysydd allweddol yn cael eu harchwilio.

Yn ychwanegol at gasglu swm sylweddol o dystiolaeth ffurfiol, roeddem yn awyddus i glywed yn uniongyrchol gan bobl y mae gofal preswyl yn effeithio arnynt, a phobl sy'n rhan o'r maes gofal preswyl, a dysgu am yr heriau a wynebir gan y sector a'i ddefnyddwyr. I'r perwyl hwn, dyma a wnaethom:

- ymweld â nifer o gyfleusterau gofal;
- cynnal cyfarfodydd anffurfiol â swyddogion mewn byrddau iechyd ac awdurdodau lleol;
- cynnal sesiwn anffurfiol yn y gogledd i siarad â gweithwyr yn y sector gofal ac eraill sydd â diddordeb;
- sefydlu grŵp cyfeirio allanol i gysgodu ein gwaith (gweler Ffigur 6).

Beth oedd effaith ein gwaith ar ofal preswyl i bobl hŷn?

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn gallu cael gafael ar eiriolaeth effeithiol. Tynnwyd sylw at y mater hwn wrth graffu ar y **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**, a chafodd y ddeddfwriaeth ei diwygio'n llwyddiannus yng Nghyfnod 3 i gynnwys adran newydd ar wasanaethau eiriolaeth. Mae'r argymhellion eraill a gaiff eu hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys dyletswyddau newydd i wella mynediad at wybodaeth a chyngor ac asesiad o anghenion ar gyfer pobl hŷn.

Rydym hefyd yn argymhell gwella mynediad at wasanaethau gofal canolraddol ac ailalluogi. Ym mis Rhagfyr 2013, **cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru y byddai Cronfa Gofal Canolraddol gwerth £50 miliwn yn cael ei sefydlu i gefnogi pobl i gadw eu hannibynniaeth ac aros yn eu cartref eu hunain. Ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliodd yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) **adolygiad o wasanaethau ailalluogi yng Nghymru** a soniodd am dystiolaeth o lwyddiant parhaus ac ehangu gwasanaethau ailalluogi ledled Cymru.

Adlewyrchodd **y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)** i'n galwadau i wella a chryfhau'r gwaith craffu ariannol ar ddarparwyr cartrefi gofal, cyflwyno profion person addas a phriodol, a chynnwys y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol yn y broses arolygu a rheoleiddio.

Drwy ein gwaith, hefyd, ysgogwyd y Comisiynydd Pobl Hŷn i ymchwilio ymhellach i ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru, a arweiniodd at ei **hadolygiad manwl** a gyhoeddwyd yn 2014 a gwaith dilynol yn 2015.

Gwersi a ddysgwyd o'n hymchwiliadau thematig tymor hwy, ac argymhellion ar gyfer ein pwyllgor olynol

Gwers 10: Defnyddio ymchwiliadau polisi i lywio gwaith craffu deddfwriaethol

Rydym yn falch o'r gwaith craffu thematig cynhwysfawr a gynhaliwyd gennym yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae dewis pynciau ar gyfer craffu a fyddai'n ymddangos yn ddiweddarach mewn deddfwriaeth – gan gynnwys gofal preswyl, fferyllfeydd cymunedol, a goblygiadau darparu toiledau cyhoeddus annigonol ar iechyd y cyhoedd – wedi bod o fudd sylweddol inni wrth lunio ein hystyriaeth o ddarpariaethau Biliau perthnasol.

Argymhelliad 11: Os y bydd yn gyfrifol am graffu ar bolisi a deddfwriaeth, dylai ein pwyllgor olynol gynllunio ei raglen fel y gellir defnyddio ymchwiliadau polisi i helpu i lywio gwaith craffu ar deddfwriaeth ddilynol. Gall hyn fod yn gyfle i Aelodau – a rhanddeiliaid allanol – ehangu eu gwybodaeth a chodi eu hymwybyddiaeth o faes pwnc penodol cyn cael cais i ystyried Biliau manwl, a'u gallu i wneud gwelliannau ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda.

Gwers 11: Rheoli maint ymchwiliadau polisi

Er gwaethaf ansawdd uchel a lefel fanwl y gwaith craffu, aeth rhai o'n hymchwiliadau mwy hirdymor yn fwy na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Roedd rhai yn ymestyn dros nifer o fisoedd ac, erbyn y diwedd roedd yn anodd cadw'r egni a'r momentwm a oedd yn bosibl ei gadw gyda darnau byrrach o waith. Roedd eu hyd, hefyd, yn golygu bod digwyddiadau, ar brydiau, wedi dylanwadu ar y dystiolaeth a gasglwyd a'r argymhellion posibl a oedd ar gael i ni.

Argymhelliad 12: Dylai ein pwyllgor olynol barhau i fod yn ystyriol o'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal ymchwiliadau manwl a chadw diddordeb a pherthnasedd.

Gwers 12: Ymgynghori ar gwmpas ymchwiliadau polisi

Oherwydd ehangder a chymhlethdod posibl peth o'n gwaith thematig tymor hwy, cynhaliwyd ymgynghoriad ar gwmpas a chylch gorchwyl ymchwiliadau. Roedd hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar feysydd sy'n peri'r pryder mwyaf a/neu'r effaith fwyaf, ac yn ymgysylltu mor gynnar â phosibl â rhanddeiliaid posibl sydd ag arbenigedd mewn maes pwnc.

Argymhelliad 13: Dylai ein pwyllgor olynol ystyried ymgynghori, pan fo amser yn caniatáu, ar gwmpas ei ymchwiliadau. Gall hyn helpu i sicrhau bod y gwaith yn berthnasol ac yn adeiladol, a bod amser ac adnoddau'r Pwyllgor yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl.

Craffu deddfwriaethol – gweithgaredd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi craffu ar saith o Filiau, a chyflwynwyd pump ohonynt gan Lywodraeth Cymru a dau gan Aelodau unigol. Fodd bynnag, nid oedd ein gwaith deddfwriaethol yn gyfyngedig i graffu ar Filiau yn unig. Rhwng 2011 a 2016, cawsom saith memoranda cydsyniad deddfwriaethol i'w hystyried, craffwyd ar is-ddeddfwriaeth yn deillio o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chynhaliwyd gwaith craffu cynhwysfawr ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Sefydlwyd is-bwyllgor gennym hefyd i gwrdd ar y cyd ag is-bwyllgor o'r Pwyllgor Menter a Busnes i ystyried **Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012**.

01.Craffu ar Filiau

Ystyriwyd egwyddorion cyffredinol saith Bil yng Nghyfnod 1, a chynhyrchwyd adroddiad cynhwysfawr ar bob un a gwneud cyfanswm o 180 o argymhellion. Ystyriwyd dros 1100 o argymhellion Cyfnod 2 yn y Pwyllgor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Biliau a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru

- **Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**
- **Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)**
- **Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**
- **Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**
- **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Biliau a gynigiwyd gan Aelodau unigol

- **Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)**, a gyflwynwyd gan Mick Antoniw AC
- **Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)**, a gyflwynwyd gan Kirsty Williams AC

Deddfwriaeth y Llywodraeth: Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Ystyriwyd Bil Trawsblannu Dynol Llywodraeth Cymru gennym yn ystod 2012-13. Diben y Bil oedd newid trefniadau cydsyniad ar gyfer rhoi organau dynol a meinweoedd drwy gyflwyno system 'feddal o optio allan'. Byddai'r system newydd yn golygu y byddai cydsyniad person ar gyfer rhoi organau yn un tybiedig oni bai y byddai wedi optio allan yn ffurfiol drwy nodi ei enw neu ei henw ar gofrestr. Nod y ddeddfwriaeth oedd cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu.

Cyfnod 1: Gwnaethom 22 o argymhellion. Mae'r rhain yn ymwneud â materion fel yr angen am ymgyrchoedd cyfathrebu ac addysg helaeth ac adnoddau digonol i fynd i'r afael ag unrhyw gynnydd mewn gweithgaredd trawsblannu, hyfforddiant effeithiol ar gyfer gweithwyr meddygol proffesiynol, eglurhad pellach ar rôl y teulu, a mwy o ystyriaeth o sut y byddai statws preswyl yr unigolyn yn effeithio ar p'un a oedd yn rhan o'r system.

Roedd pwnc sensitif y Bil yn tanio barn gref ymysg y cyhoedd ac Aelodau fel ei gilydd, yn galw am lefel uchel o waith craffu manwl ac yn codi cwestiynau moesegol heriol i bob un ohonom. Er bod y rhan fwyaf ohonom yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil a'r cynnig i gyflwyno system o gydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau yng Nghymru, nid oedd y farn hon yn unfrydol.

Cyfnod 2: Cyflwynwyd 42 o welliannau, a chytunwyd ar 22 ohonynt (gan gynnwys 1 gwelliant na ddaeth gan y Llywodraeth). Roedd y newidiadau a wnaed i'r Bil yn sgil ein gwaith yn cynnwys:

- eithrio ffurfiau newydd a chyfansawdd o drawsblannu o'r system cydsyniad tybiedig;
- yr angen am ganllawiau ar sut i asesu'r wybodaeth a ddarperir gan berthnasau a ffrindiau;
- ymestyn y maen prawf preswyl i 12 mis;
- pan na fydd cynrychiolydd penodedig yn gallu gweithredu, ei gwneud yn ofynnol i'r cydsyniad gael ei ddirprwyo i berson yn ôl trefn perthynas.

Cyflwynodd y Gweinidog hefyd welliannau **Cyfnod 3** yn ymwneud ag ymgyrchoedd cyfathrebu.

Cafwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil ar 10 Medi 2013. Roedd y gwaith paratoi er mwyn i'r gyfraith ddod i rym yn cynnwys yr hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel “**yr ymgyrch iechyd cyhoeddus mwyaf a mwyaf amrywiol yn hanes datganoli**” i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system newydd. Fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad Cyfnod 1, mae cynllun gwerthuso wedi'i sefydlu i asesu gweithredu'r Ddeddf a'r effaith a gaiff ar gyfraddau rhoi organau.

Daeth **Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013** i rym yn llawn ar 1 Rhagfyr 2015.

Deddfwriaeth Aelod: Y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

Cyflwynodd Kirsty Williams AC y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) ar 1 Rhagfyr 2014 yn dilyn ei llwyddiant mewn balot a gynhaliwyd ar gyfer deddfwriaeth Aelodau. Nod y Bil oedd sicrhau y byddai lefelau staff nyrsio yn ddigonol i ddarparu gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon i gleifion ar bob adeg.”

Cyfnod 1: Er ein bod yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ni wnaethom hynny yn ddiamod. Daethom i'r casgliad y byddai angen nifer o welliannau i liniaru canlyniadau anfwriadol sylweddol a allai gael eu creu gan ddarpariaethau'r Bil. Gwnaethom 19 o argymhellion, gan gynnwys galw am eglurder ynghylch y lleoliadau y bwriadwyd i ddarpariaethau'r Bil fod yn gymwys o'r dechrau; camau i warchod rhag i fesurau cydymffurfio mewn un lleoliad gael effaith andwyol ar staffio mewn un arall; a gwaith cynllunio gweithlu gynhwysfawr i sicrhau niferoedd digonol o nyrsys hyfforddedig ar draws y sectorau iechyd a gofal cyhoeddus ac annibynnol.

Cyfnod 2: Cyflwynwyd 38 o welliannau, a chyflwynodd y Gweinidog 10 ohonynt. Ni wnaeth yr Aelod yn gyfrifol gyflwyno gwelliannau ar hyn o bryd. Cafodd newidiadau eu gwneud a oedd yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd yng Nghyfnod 1, a rhoddwyd ymrwymadau i gyflwyno rhagor o welliannau yng

Nghyfnod 3. Roedd y rhain yn cynnwys:

- egluro y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol i wardiau meddygol a llawfeddygol cleifion mewnol acíwt, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y ddyletswydd i sefyllfaoedd eraill drwy reoliadau;
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag amrywiaeth o bobl y gallai'r canllawiau lefelau staff nyrsio effeithio arnynt, gan gynnwys y sectorau cartrefi gofal a gofal iechyd annibynnol;
- ei gwneud yn ofynnol i Fyrddiau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG gynnal gwaith cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys cynllunio recriwtio, cadw, addysg a hyfforddiant ar gyfer nyrsys.

Cytunodd y Cynulliad ar y Bil ar 10 Chwefror 2016. Disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol ddiwedd mis Mawrth.

Bil Lefelau [Diogel] Staff Nyrsio (Cymru)

Pan gyflwynodd Kirsty Williams AC y Bil ym mis Rhagfyr 2014, yr enw arno oedd y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). Yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 25 Tachwedd 2015, cytunwyd i newid teitl byr y Bil i Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (gwelliant 35).

Cyfnod 2 - Gwelliant 29

Tra'n cynnal ysbryd cyffredinol y Bil fel y'i cyflwynwyd gan Kirsty Williams, roedd un o welliannau'r Gweinidog yn gwneud newidiadau sylweddol i ddrafft y Bil. Er bod y dull hwn yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau deddfwriaethol y Cynulliad, roedd rhai o Aelodau'r Pwyllgor yn teimlo bod maint a natur y newidiadau a gynigiwyd i'r Bil yn gyfatebol, bron, i'w ail-ysgrifennu'n gyfan gwbl. Nid oeddynt yn credu bod hwn yn ddull priodol o ddeddfu.

02.Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cafodd saith o femoranda cydsyniad deddfwriaethol (LCM) yn ymwneud â Biliau canlynol y DU eu cyfeirio atom i graffu arnynt:

- **Y Bil Plant a Theuluoedd**
- **Bil Gofal (y Memorandwm cyntaf)**
- **Bil Gofal (y Memorandwm diwygiedig)**
- **Bil Gofal (y Memorandwm atodol)**
- **Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd**
- **Y Bil Arloesedd Meddygol**
- **Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi)**

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr amser a oedd ar gael i ni i ystyried cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn gyfyngedig iawn. Roedd hyn yn cyfyngu ar ein gallu i ymgymryd â gwaith manwl. Ar y cyfan, nid oedd modd ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid allanol.

Yn achos y Bil Plant a Theuluoedd, nid oedd digon o amser i greu adroddiad, ond gwahoddwyd y Gweinidog i sesiwn dystiolaeth lafar fyr i ystyried y materion yr oedd y Bil yn eu cwmpasu. Roedd **trawsgrifad** y sesiwn hon ar gael mewn pryd i lywio **trafodaeth Cyfarfod Llawn** a phleidleisio ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.

Yn achos y Bil Arloesedd Meddygol a Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi), roedd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraethau y DU safbwyntiau cyferbyniol ynghylch cymhwysedd y Cynulliad. Er bod Llywodraeth Cymru yn credu y byddai'r Biliau yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â materion a ddatganolwyd i'r Cynulliad, roedd Llywodraeth y DU yn credu bod y darpariaethau yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

Er na wnaeth y naill Fil na'r llall ddeddfu ar gyfer Cymru yn y pen draw (disgynnodd y Bil Arloesedd Meddygol ar ddiwedd y Senedd ddiwethaf ac roedd gwelliannau i'r Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi) yn golygu mai dim ond i Loegr roedd yn gymwys) gallai sefyllfa fod wedi digwydd lle y byddai Senedd y DU wedi deddfu heb gydsyniad y Cynulliad mewn maes lle roeddem ni, a Llywodraeth Cymru, o'r farn oedd wedi datganoli. Byddai hyn wedi bod yn fater o gryn bryder inni pe bai'r sefyllfa wedi codi.

Beth yw Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a pam mae angen un? Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli, mae confensiwn yn mynnu ei bod yn cael cydsyniad y Cynulliad cyn y caiff basio'r deddfwriaeth dan sylw.

Mae Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod, os bydd Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n ei addasu. Yn gyffredinol, cyfeirir y rhain at bwyllgorau perthnasol i'w hystyried. Mae adroddiadau'r pwyllgor ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol yn cael eu defnyddio i helpu i lywio penderfyniad ehangach y Cynulliad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad i ddarpariaethau perthnasol gael eu gwneud gan Senedd y DU.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Pŵl Pitswn y Pierbe
Pierbead Foll

Pierbead

03.Is-ddeddfwriaeth

Ym mis Mai 2015 hysbyswyd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'n bwriad i ystyried **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015**. Daethom i'r casgliad yn ein **hadroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** y dylai'r rheoliadau ar y meini prawf cymhwysedd fod yn destun gwaith craffu cadarn ac roeddem wedi nodi ein bwriad i fynd ar drywydd y Rheoliadau unwaith y byddent ar gael.

Casglwyd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i lywio ein hystyriaeth. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog cyn y ddadl berthnasol yn y Cyfarfod Llawn yn tynnu sylw at ble roeddem yn credu y gellid gwella'r Cod Ymarfer a oedd yn ategol i'r Ddeddf a'r Rheoliadau.

Arweiniodd ein cyfraniad yn y gwaith craffu ar y Rheoliadau hyn at welliannau gwerthfawr i'r Cod Ymarfer, gan gynnwys:

- proses gliriach, ond estynedig, o bennu cymhwysedd ar gyfer cymorth;
- cynnwys rhagor o fanylion am gyfrifoldebau awdurdodau lleol;
- darpariaethau pellach i fynd i'r afael â'n pryderon am y pwysau posibl ar unigolion neu ofalwyr di-dâl.

"Yn anochel, mewn Deddf sy'n darparu ar gyfer newid radical, ceir pryderon dealladwy am ei darparu'n ymarferol. Mae y Pwyllgor wedi cynorthwyo i nodi ffyrdd y gellir datrys y pryderon hyn yn y Cod Ymarfer a fydd yn ategu'r Ddeddf, a byddwn yn sicrhau bod y Codau yn cael eu cryfhau ymhellach i adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor."

*Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
14 Gorffennaf 2015*

"Rydym yn croesawu'r gwaith craffu a wnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 a'r cod ymarfer perthnasol er mwyn ystyried a fyddant yn cyflawni nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i baratoi ar gyfer trafod y rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn."

*Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu yng Nghymru.
Hydref 2015*

Ffigur 7: Dull craffu ar ôl deddfu

Amcanion allweddol ar gyfer craffu ar ôl deddfu:

- gweld a yw'r ddeddfwriaeth yn gweithio yn ymarferol yn ôl y bwriad
- cyfrannu at ddeddfwriaeth well
- gwella'r ffocws ar weithredu a chyflawni amcanion polisi
- nodi a lleadaenu arfer da fel y gellir dysgu gwersi gan lwyddiannau a methiannau a ddatgelwyd gan y gwaith craffu
- asesu a yw'r ddeddfwriaeth wedi rhoi gwerth am arian ac a fydd yn parhau i wneud hynny

Casglu tystiolaeth benodol

- targedwyd ein hymgyngoriad ysgrifenedig tuag at Lywodraeth Cymru; darparwyd gwasanaethau iechyd meddwl statudol; cyrff proffesiynol perthnasol a sefydliadau'r trydydd sector; chyrrff rheoleiddio/arolygu; a'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 y Trydydd Cynulliad, pan oedd yn craffu ar y Mesur arfaethedig yn 2010
 - ystyriwyd y themâu allweddol a godwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig cyn gwahodd tystiolaeth lafar
 - cynhaliwyd sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i holi am y materion sy'n codi yn y dystiolaeth ysgrifenedig
-

04. Craffu ar ôl y broses ddeddfu

Ym mis Mai 2014, cytunwyd i gynnal gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Cyn hyn, ychydig iawn o waith craffu ar ôl y broses ddeddfu roedd y Cynulliad wedi'i gynnal. Mabwysiadwyd pedwar amcan a nodwyd gan **Gomisiwn y gyfraith** fel egwyddorion arweiniol ar gyfer ein gwaith. Yn ogystal, cyflwynwyd pumed egwyddor gennym, yn seiliedig ar fforddiadwyedd, blaenoriaethu a gwerth am arian, a oedd yn adeiladu ar ein rhaglen o graffu ariannol.

Ar sail yr egwyddorion hyn, mesurwyd y broses o roi'r Mesur ar waith, a'i weithrediad wedyn drwy:

- asesu i ba raddau roedd amcanion a bennwyd ar gyfer y Mesur yn cael eu cyflawni;
- nodi a oedd unrhyw wersi y gellid eu dysgu neu arfer da y gellid ei rannu yn sgil y gwaith o lunio a gweithredu'r Mesur a'r is-ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig;
- asesu a oedd y ddeddfwriaeth wedi rhoi gwerth am arian, ac a fyddai'n parhau i wneud hynny.

Roedd ein hadroddiad yn nodi bod gwelliannau wedi digwydd yn dilyn gweithredu'r Mesur. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd lle roedd angen cynnydd o hyd. Y mater a oedd yn peri'r pryder mwyaf i ni oedd nad oedd plant a phobl ifanc yn elwa'n llawn o'r Mesur. Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i fynd i'r afael â'r materion hyn a materion eraill, gan gynnwys y rhai a amlygwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn **ei adroddiad ar CAMHS** ym mis Tachwedd 2014.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hadroddiad terfynol ar ddyletswydd i adolygu** ar y Mesur ym mis Rhagfyr 2015.

"Mae craffu ar ôl y broses ddeddfu yn rhan bwysig o asesu effeithiolrwydd deddfwriaeth ... Gellir gweld gwerth y gwaith hwn yn fwyaf diweddar, er enghraifft, yn y gwaith craffu ar ôl deddfu a wnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd hwn yn ymchwiliad pwysig, craff ac amserol yn ein barn ni, a ddylai fod yn esiampl o'r arfer gorau yn y maes hwn."

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu Hydref 2015

Astudiaeth Achos 5: Deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol

Ar beth y gwnaethom edrych a pham?

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, craffwyd ar nifer sylweddol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ("Bil SSW"), y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Cymhwysra").

Pa ddull a fabwysiadwyd gennym?

Casglu gwybodaeth

Yn ogystal â chymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar helaeth mewn perthynas â Bil SSW, roeddem yn awyddus i chwilio am wybodaeth drwy ddulliau mwy arloesol eraill. Gwnaethom hyn mewn tair prif ffordd:

- comisiynu tîm allgymorth y Cynulliad i ymweld â defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru i gasglu tystiolaeth ar ddwy elfen allweddol y Bil: diogelu ac ymyrraeth, a dewis a rheoli.
- ystyried barn Grŵp Cynghori a sefydlwyd gan sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu cyngor cydgyssylltiedig ar eu gwahanol feysydd arbenigedd.
- penodi dau gynghorwr arbenigol i roi cyngor cyfreithiol a chyngor polisi arbenigol i ni.

Datblygu arbenigedd

O ystyried maint y ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol, a'n penderfyniad i baratoi ein hunain drwy gynnal ymchwiliad polisi cynnar ac eang i ofal preswyl i bobl hŷn, daethom yn fwy arbenigol yn y maes polisi hwn.

Creu perthynas

Drwy gydol ein gwaith ar y Bil SSW, y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol a'r Rheoliadau Cymhwysra ynghyd â'n hymchwiliad polisi i ofal preswyl, tyfodd ein perthynas â rhanddeiliaid allweddol yn gryfach. Cafodd perthynas waith effeithiol ei chreu rhyngom ni a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, gan arwain at waith ategol fel **adolygiad y Comisiynydd o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru**.

Cadw momentwm

Rydym wedi cadw golwg barhaus ar y ffrwd hon o waith, sydd wedi para rhwng dechrau a diwedd y Cynulliad hwn. Ein darn sylweddol diwethaf o waith polisi yn ystod y Pedwerydd Cynulliad oedd cynnal **sesiwn gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn** i weld pa gynnydd a wnaed i weithredu'r newidiadau a nodwyd ganddi hi a ninnau fel rhai angenrheidiol yn y maes gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru.

Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddarn mawr a chymhleth o ddeddfwriaeth. Os yw ei amcanion yn llwyddiannus, caiff effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau miloedd o bobl sy'n cael gofal. Byddai gwaith y Pwyllgor yn craffu ar y ddeddfwriaeth hon a'i gwella yn cael ei gyfrif fel ei gyflawniad mwyaf."

Ymateb Cyngor Gofal Cymru i'n hymgyngoriad etifeddiaeth

Gwersi a ddysgwyd o'n gwaith craffu ar deddfwriaeth, ac argymhellion ar gyfer y pwyllgor olynol

Gwers 13: Amserlennu Biliau

Mae ein baich gwaith deddfwriaethol wedi bod yn un sylweddol, nid yn unig o ran nifer y Biliau a gafodd eu cyfeirio atom i graffu arnynt, ond hefyd o ran eu maint, natur ac amserlen. Ar brydiau, mae clystyru biliau ar ddechrau ac ar ddiwedd y Cynulliad wedi rhwystro'r cyfleoedd inni i gyflawni ein cyfrifoldebau craffu ar bolisi. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf ohonom yn cytuno y dylai polisi deuol a swyddogaeth craffu deddfwriaethol aros yn y Pumed Cynulliad ar y sail y gall arbenigedd pwnc helpu i lunio gwell deddfwriaeth.

Argymhelliad 14: Dylai ein pwyllgor olynol bwysu am:

- **ddosbarthiad mwy cyfartal o amserlennu Biliau o fewn ei bortffolio ar draws y pum mlynedd nesaf o dymor y Cynulliad (mae hyn yn berthnasol i Filiau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru ac eraill);**
- **rhoi mwy o amser iddo ystyried egwyddorion cyffredinol Biliau mwy neu fwy cymhleth;**
- **agoriad cyflwyno hirach i Aelodau baratoi gwelliannau yn achos Biliau mwy neu fwy cymhleth.**

Gwers 14: Ymgysylltiad y cyhoedd â chraffu deddfwriaethol

Er inni wneud rhywfaint o waith allgymorth arloesol mewn perthynas â deddfwriaeth – gan gynnwys 'vignettes' ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac arolwg cyhoeddus ar Fil lechyd y Cyhoedd (Cymru), gydag ymateb gan 766 o bobl, gallem fod wedi gwneud rhagor i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd yn gyffredinol ynghylch deddfwriaeth.

Argymhelliad 15: Dylai ein pwyllgor olynol fabwysiadu dulliau arloesol o gasglu tystiolaeth pan fydd yn ychwanegu gwerth at waith craffu deddfwriaethol.

Gwers 15: Craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol

Mewn rhai achosion yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, roedd yr amser ar gael inni ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn annigonol. O gofio effaith bellgyrhaeddol bosibl memoranda cydsyniad deddfwriaethol, mae angen ystyried ymhellach sut y gall pwyllgorau wneud cyfraniad ystyrion i'r broses hon.

Argymhelliad 16: Dylid gwneud gwaith pellach ar ddechrau'r Pumed Cynulliad i ystyried yr amser sydd ar gael ar gyfer y pwyllgorau i wneud cyfraniadau ystyrion i graffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol.

Gwers 16: Craffu ar is-ddeddfwriaeth

Roedd ein gwaith ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 yn dangos pa mor bwysig yw cadw llygad craff ar is-ddeddfwriaeth yn ogystal â deddfwriaeth sylfaenol. Mewn nifer o achosion, is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys y manylion a gaiff yr effaith fwyaf ar fywydau beunyddiol pobl.

Fodd bynnag, gwelsom drwy ein gwaith ar y Rheoliadau hyn yr angen i amseru cyfraniad y pwyllgor yn ofalus. Unwaith y bydd offeryn wedi'i osod yn ffurfiol, ni ellir ei ddiwygio. Yn achos y Rheoliadau Cymhwystra, roedd amseriad ein gwaith yn golygu, er y gallem awgrymu newidiadau i'r cod ymarfer sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau, roedd yn rhy hwyr i awgrymu newidiadau sylweddol i'r is-ddeddfwriaeth ei hun. Wrth edrych yn ôl, efallai y byddai wedi bod yn well i ymgysylltu ag is-ddeddfwriaeth yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru er mwyn defnyddio ein dylanwad i'r eithaf.

Argymhelliad 17: Dylai ein pwyllgor olynol:

- **fonitro is-ddeddfwriaeth a wneir o fewn ei bortffolio yn agos;**
- **diogelu amser o fewn ei raglen i graffu ar effaith offerynnau statudol sylweddol;**
- **rhoi ystyriaeth ofalus i amseriad ei gyfraniad er mwyn defnyddio ei ddylanwad i'r eithaf.**

Gwers 17: Craffu ar ôl deddfu

Mae craffu ar ôl y broses ddeddfu yn chwarae rhan bwysig o ran asesu pa mor effeithiol yw deddfwriaeth: yn arbennig o ran i ba raddau y mae'n cyflawni'r amcanion y bwriada eu cyflawni a chyflawni'r manteision a fwriedir i bobl Cymru. Wrth i anghenion polisi a gwaith craffu deddfwriaethol a osodir ar bwyllgorau ddylanwadu ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer craffu ar ôl y broses ddeddfu, rydym o'r farn bod gan bwyllgorau'r Cynulliad rôl bwysig i'w chwarae o ran dysgu gwersi a nodi arfer gorau ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol.

Argymhelliad 18: Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod cyfran o'i amser yn cael ei ddiogelu ar gyfer gwaith craffu ar ôl deddfu.


Craffu ariannol – gweithgaredd, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

Gyda bron i hanner pob cyllideb flynyddol yn cael ei dyrannu i iechyd a gofal cymdeithasol, roeddem am fonitro gwariant Llywodraeth Cymru ac asesu i ba raddau roedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r arfau sydd ar gael iddi i sicrhau gwerth am arian. Gellir categorio ein gweithgaredd ariannol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad fel a ganlyn: craffu ar y gyllideb; craffu ariannol yn ystod y flwyddyn; a prif-ffrydio craffu ariannol mewn ymchwiliadau polisi a deddfwriaethol.

01.Craffu ar y Gyllideb

Rhwng 2011 a 2016 craffwyd ar bum cyllideb flynyddol gan Lywodraeth Cymru, sef cyfanswm o dros £32 biliwn i iechyd a gofal cymdeithasol.

Faint gaiff ei wario ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?



Y prif themâu

Roeddem yn ceisio mynd ar drywydd themâu allweddol o un flwyddyn i'r llall, a sicrhau bod argymhellion a wnaed o'r blaen yn cael eu dilyn a'u gweithredu. Roedd y themâu a gododd yn cynnwys:

- cynllunio ariannol a sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, gan gynnwys dosbarthu dyraniadau refeniw ychwanegol i wasanaethau'r GIG;
- y cyllid sydd ar gael ar gyfer ad-drefnu a thrawsnewid gwasanaethau;
- alinio'r gyllideb ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn benodol yr ymrwymadau i wella mynediad i wasanaethau meddygon teulu a chyflwyno archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed;
- effaith y gostyngiad mewn cyllid Llywodraeth Leol ar wasanaethau cymdeithasol, a'r effaith ganlyniadol ar wasanaethau eraill fel iechyd;
- integreiddio'r maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig cydweithredu ariannol a defnyddio cyllidebau cyfun;
- cyflwyno, datblygu a gweithredu'r Gronfa Gofal Canolraddol;
- argaeledd cyllid cyfalaf, gan gynnwys mynd ar drywydd dulliau ariannu arloesol.

Gwell gwybodaeth ariannol

Gwell gwybodaeth ariannol

Thema allweddol arall a ddaeth i'r amlwg dros y pum mlynedd diwethaf oedd ein galwad am well gwybodaeth gyllidebol i gael ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Tra rydym yn cydnabod y gwelliannau a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, roedd anawsterau yn parhau o ran craffu ar y llinell 'Cyflenwi'r GIG', a oedd yn cwmpasu mwyafrif helaeth y gyllideb iechyd.

Adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Tynnwyd sylw at ein pryderon ynghylch materion a gododd yr Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad ag eglurder am gostau a manteision y Bil. Nodwyd, o ystyried y potensial y gallai deddfwriaeth arwain at oblygiadau ariannol sylweddol a phellgyrhaeddol, ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth glir a chywir am ei gostau a'i fuddion i ganiatáu gwaith craffu cadarn.

Adroddiad ar waith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Rydym yn cydnabod anawsterau amcangyfrif costau deddfwriaeth, ac y gall cyflwyno gwasanaethau newydd ddatgloi galw cudd am wasanaethau o'r fath. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fireinio a gwella'r ffyrdd y mae'n amcangyfrif galw a goblygiadau ariannol deddfwriaeth. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i ddarparu rhagor o wybodaeth, fel mater o drefn, am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn asesu gwerth am arian.

02. Craffu ariannol yn ystod y flwyddyn

Cynhaliwyd sesiynau craffu ariannol yn ystod y flwyddyn fel y gwneir bob blwyddyn, gyda'r Gweinidogion perthnasol, er mwyn:

- cael y wybodaeth ddiweddaraf am themâu sy'n codi yn ystod ein gwaith craffu ar y gyllideb a gwaith polisi perthnasol neu ddeddfwriaethol arall;
- dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif o ran ei rheolaeth ar wariant, yn arbennig y graddau y mae wedi gweithredu ei chynlluniau a mesur eu heffaith;
- cael y wybodaeth ddiweddaraf am amrywiadau i gynlluniau Llywodraeth Cymru fel y nodwyd mewn cyllidebau atodol;
- monitro sefyllfa refeniw byrddau iechyd lleol, yn enwedig eu perfformiad yn erbyn arbedion arfaethedig, eu defnydd o unrhyw arian ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, ac i ba raddau y maent ar y trywydd iawn i fodloni eu cyllidebau ar ddiwedd y flwyddyn.

“It is unlikely that key actors will invest effort in making a budget realistic if the execution is unaccountable.”

Adran Datblygu Rhyngwladol, Gwybodaeth am Adolygiad o Ddiwygio Rheoli Cyhoeddus, 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ydy corff afa eidd ei ethol yn ddemocrataidd i gyrrwcholi buddiansau Cymru a'i phobol, i ddiogelu ac i ymlat Cymru ac i ddiogyn Llywodraeth Cymru i gynt.

www.cynulliad.cymru
www.twitter.com/cynulliadcymru
www.facebook.com/cynulliadcenedlaetholcymru

03.Prif-ffrydio craffu ariannol mewn ymchwiliadau polisi a deddfwriaethol

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi ceisio integreiddio gwaith craffu ariannol wrth ystyried polisi a deddfwriaeth drwy sicrhau:

- bod y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth yn cynnwys cyfeiriadau at ystyriaethau ariannol;
- bod ein gwaith yn ategu, lle y bo'n bosibl, waith y Pwyllgor Cyllid; a
- bod ystyriaeth o faterion ariannol yn rhan o waith craffu ar is-ddeddfwriaeth a chraffu ar ôl deddfu.

Meithrin capasiti i wneud gwaith craffu ariannol

I gydnabod mor bwysig yw meithrin capasiti i wneud gwaith craffu ariannol, cynhaliwyd cyfres o sesiynau datblygiad proffesiynol gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). O ganlyniad i'r sesiynau hyn, cafodd ein gwaith craffu ariannol dilynol ei lunio yn unol â phedair egwyddor craffu ariannol da CIPFA:

- **Blaenoriaethu:** a yw'r adnoddau wedi'u rhannu'n unol â Rhaglen Lywodraethu?
- **Fforddiadwyedd:** a oes cydbwysedd rhwng incwm a gwariant?
- **Gwerth am arian:** a wneir y defnydd gorau o arian cyhoeddus, ac a yw'r canlyniadau disgwylidig yn cael eu canfod a'u cyflawni?
- **Proses y gyllideb:** a gaiff perfformiad ei reoli a'i nodi'n glir, ac a gaiff yr holl gynlluniau gwario perthnasol eu hintegreiddio lle bo hynny'n briodol?

Gwersi a ddysgwyd o'n gwaith craffu ariannol, ac argymhellion ar gyfer ein pwyllgor olynol

Gwers 18: Pwysigrwydd gwybodaeth ariannol glir

Credwn yn gryf bod gan bwyllgorau unigol rôl bwysig i'w chwarae wrth graffu ar fanylion dyraniadau cyllideb perthnasol, a gwariant, canlyniadau a gwerth am arian sy'n gysylltiedig â pholisïau a deddfwriaeth o fewn eu cylchoedd gwaith perthnasol. Wrth gydnabod rhai o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth ariannol, credwn fod angen gwneud gwelliannau yn hyn o beth er mwyn gwella effeithiolrwydd ein pwyllgor olynol wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Yn benodol, cafodd ein gallu i graffu ar y gyllideb flynyddol ei gyfyngu gan y ffaith bod y rhan fwyaf o'r gyllideb iechyd wedi'i chwmpasu mewn un llinell gyllideb, sef y llinell 'Darparu'r GIG'. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth fanylach yn y dyfodol er mwyn galluogi ein olynnydd i graffu'n fwy effeithiol ar y gyllideb.

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlyniadau y mae'n bwriadu eu cyflawni drwy ei dyraniadau cyllideb, gan gynnwys manylion ei hasesiad o fforddiadwyedd a blaenoriaethu. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru, wrth gyflwyno ei chyllideb, roi mwy o fanylion na'r llinell bresennol 'Darparu'r GIG0, sydd, yn ein barn ni, wedi cyfyngu ar ein gallu i graffu'n effeithiol.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru (ac unrhyw Aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am Filiau) ddarparu gwell gwybodaeth ariannol yn y Memoranda Esboniadol a gyhoeddir ochr yn ochr â Biliau.

Gwers 19: Pwysigrwydd craffu ariannol yn ystod y flwyddyn

Credwn fod craffu ariannol yn ystod y flwyddyn o ran gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yr un mor bwysig â chraffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol. Mae'r gwaith craffu ariannol cyfnodol yn ystod y flwyddyn rydym wedi'i wneud wedi cynorthwyo ein gwaith craffu cyffredinol ar y gyllideb a'n gallu i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Argymhelliad 21: Dylai ein pwyllgor olynol barhau i ymgymryd â gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn yn y Pumed Cynulliad.

Gwers 20: Prif-ffrydio gwaith craffu ariannol

Mae'r ymdrech rydym wedi'i gwneud i brif-ffrydio gwaith craffu ariannol o fewn ein gwaith polisi a deddfwriaethol wedi ychwanegu at y corff o wybodaeth ariannol sydd ar gael inni i ddwyn Gweinidogion i gyfrif. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallem fod wedi gwneud mwy i brif-ffrydio gwaith craffu ariannol ac nad oeddem, ar brydiau, wedi rhoi digon o ffocws i gwestiynau pwysig a oedd yn gysylltiedig â chyllid.

Argymhelliad 22: Dylai ein pwyllgor olynol ymrwymo i:

- **brif-ffrydio gwaith craffu ariannol yn ei waith polisi a gwaith deddfwriaethol;**
- **sicrhau bod materion yn ymwneud â chyllid yn ffurfio rhan allweddol o waith craffu'r Aelodau ar bynciau pob ymchwiliad dan sylw;**
- **arwain ar waith craffu ariannol ar unrhyw Fil a gaiff ei gyfeirio ato ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.**

Gwers 21: Adeiladu capasiti craffu ariannol

Credwn y gallai adeiladu craffu ariannol - capasiti, sicrhau gwelliannau gwerthfawr i waith y Cynulliad o graffu ar Lywodraeth Cymru. Mae datganoli pwerau cyllidol i'r Cynulliad yn cryfhau'r achos dros weithgarwch o'r fath.

Argymhelliad 23: Dylai ein pwyllgor olynol – a'r Cynulliad yn ehangach - ymgymryd â gwaith pellach i adeiladu capasiti craffu ariannol Aelodau a staff.



Edrych tua'r Pumed Cynulliad - ymchwiliadau ar gyfer y tro nesaf

Wrth edrych yn ôl ar ein gwaith dros y pum mlynedd diwethaf, ac ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad etifeddiaeth, rydym wedi nodi detholiad bach o faterion y gallai ein pwyllgor olynol fod am eu hystyried.

01. Iechyd

Perfformiad gwasanaethau ambiwlans

Fel rhan o'n gwaith, mynegwyd ein barn y dylid cadw ffocws rheolaidd ar wasanaethau ambiwlans hyd nes y gall y Cynulliad fod yn hyderus bod gwasanaethau wedi gwella'n ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol fonitro cynnydd yn ystod y Pumed Cynulliad.

Recriwtio, cadw a chynaliadwyedd gweithlu'r GIG

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ystyriwyd y gweithlu meddygon teulu yng Nghymru. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol ganfod y wybodaeth ddiweddaraf o ran y gwaith hwn. Fel arall, efallai yr hoffai ystyried pryderon sydd wedi cael cryn gyhoedduswydd ynghylch recriwtio, cadw a chynaliadwyedd gweithlu'r GIG ehangach yng Nghymru.

Gweithredu Deddf Cyllid y GIG 2014

Roedd sefyllfa ariannol a chynllunio Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, gan gynnwys dosbarthu dyraniadau refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r GIG, yn bwnc trafod rheolaidd inni. Diben y Ddeddf oedd sefydlu cyfundrefn ariannol lle mae'n ofynnol i wasanaethau reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod o 3 blynedd. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol ystyried effaith y Ddeddf.

Ad-drefnu gwasanaethau

Cytunwyd ar gynigion ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau iechyd mewn nifer o ardaloedd ledled Cymru. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol edrych pa gynnydd a wnaed wrth weithredu'r newidiadau gwasanaeth hynny, beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer mynediad cleifion at wasanaethau, ac ar gyfer cynaliadwyedd y gweithlu.

Mynediad at driniaeth a'r broses Ceisiadau Clido Cleifion Unigol (IPFR)

Yn ystod ein hymchwiliad ar weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, codwyd nifer o bryderon ynghylch mynediad at driniaeth a'r broses IPFR. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol chwilio i ba raddau y gwnaed gwelliannau.

Yr agenda ataliol

Mae symud y defnydd o wasanaethau'r GIG ymhellach tuag at atal ac ymyrraeth fuan wedi bod yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol ystyried rôl ac effaith dull ataliol i wasanaethau iechyd a gweithio er mwyn addysgu'r cyhoedd yn gyffredinol am yr agenda ataliol. Efallai yr hoffai ystyried yr offer cyllidol fydd gan y Cynulliad i'w defnyddio, hefyd, er mwyn ysgogi pobl i fwyta llai o fwyd afiach ac yfed llai o ddiodydd afiach.

02. Gofal cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Tynnodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad etifeddiaeth sylw at pa mor bwysig yw mynd ar drywydd gweithredu'r rheoliadau a fframwaith cymhwysedd sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol gynnal ymchwiliad ar y pwnc hwn.

Dementia

Drwy gydol ein hystyriaeth o'r ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol a gyfeiriwyd atom, ein hymchwiliad i wasanaethau gofal preswyl, a'n gwaith craffu ar Weinidogion a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, roedd dementia yn faes allweddol sydd angen ei ystyried ymhellach. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol gynnal ymchwiliad ar y pwnc hwn.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Roedd integreiddio gwasanaethau, gan gynnwys y cynnydd cyfredol a wnaed i sicrhau gweithio agosach a heriau yn y maes hwn yn y dyfodol, yn codi dro ar ôl tro yn ein hymgynghoriad etifeddiaeth fel pwnc sydd angen ei ystyried ymhellach. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol ddwyn hyn ymlaen yn ystod y Pumed Cynulliad.

Themâu trawsbynciol

Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg ar draws ein hymchwiliadau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol ystyried y themâu hyn fel rhan o'u gwaith craffu dros y pum mlynedd nesaf.

Arweiniad a gweithredu cenedlaethol

Cododd yr angen am arweiniad cenedlaethol cryfach i sicrhau gweithredu strategaethau, fframweithiau gwasanaeth a darpariaeth yn effeithiol fel argymhelliad yn nifer o'n hymchwiliadau.

Roedd yr ymchwiliadau perthnasol yn cynnwys: lleihau'r risg o strôc, fferyllfeydd cymunedol, gwasanaethau cadeiriau olwyn, thrombo-emboledd gwythiennol, marw-enedigaethau, diabetes, Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a mynediad at dechnolegau meddygol.

Casglu, rhannu ac adrodd data

Cododd yr angen am wella'r gwaith o gasglu data ac adrodd, a rhannu'r data hwnnw ar draws sefydliadau a gwasanaethau, mewn nifer o'n hymchwiliadau. Yn gysylltiedig â hyn roedd yr angen i wella TGCh a gallu systemau gwasanaethau gwahanol i ryngweithio â'i gilydd.

Roedd yr ymchwiliadau perthnasol yn cynnwys: sylweddau seicoweithredol newydd, mynediad at dechnolegau meddygol, fferyllfeydd cymunedol, achosion o'r frech goch yn 2013, gofal heb ei drefnu, gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, cwynion y GIG a gwasanaethau orthodontig.

03. Ymgynghoriad ar – a chyhoeddi – y rhaglen waith

Yn ei adroddiad etifeddiaeth, roedd ein pwyllgor blaenorol yn argymhell inni:

" ... ystyried gweithredu system o ymgysylltu parhaus â'r cyhoedd, gan gynnwys gwahoddiad sefydlog i'r cyhoedd awgrymu pwnc ar gyfer ymchwiliadau'r pwyllgor. Yn ogystal, rydym o'r farn y dylid cyhoeddi blaenraglen waith y pwyllgor, er mwyn caniatáu i rhanddeiliaid gyfrannu ati."

Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, Mawrth 2011

Fe weithredwyd ar hyn, gan gynnal deialog barhaus â rhanddeiliaid ynghylch pynciau i graffu arnynt yn y dyfodol a chyhoeddi ein rhaglen waith bob tymor. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallem fod wedi gwneud mwy i ymgysylltu'n systematig â rhanddeiliaid, ar gyfnodau penodedig a rheolaidd, am ein rhaglen waith yn y dyfodol. Efallai yr hoffai ein pwyllgor olynol ystyried hyn ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Atodiad A: Trawsgrifiad fideo – effaith yr ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd

Cafodd y fideo o'r Arolygydd Catherine Hawke, Heddlu Gwent - a welir ar dudalen 9 o'n hadroddiad - ei ffilmio ar 24 Chwefror 2016 yn y Senedd, Bae Caerdydd. Roedd yn dilyn lansio fideo addysgol Heddlu Gwent a Cymunedau yn Gyntaf ar sylweddau seicoweithredol newydd, o'r enw 'lethal highs'. **Gellir gweld y fideo ar-lein.**

C: Pa mor dda aeth y Pwyllgor ati i gynnal yr ymchwiliad?

Arolygydd Hawke: "I've been very impressed. It has been hugely inclusive. They've looked at people who have used NPS, people who work with people who have taken NPS and are trying to deal with the issues of removing people from taking NPS. Working with agencies such as ourselves and health etc. And that broad brush approach has made sure they've captured all the information possible around this issue."

C: Beth fu effaith ehangach yr ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd?

Arolygydd Hawke: "The impact for us has very much been raising the profile in terms of NPS as a question and an agenda item.

We recognised within Gwent Police, and within the Cwmbran area where I was working specifically, the concerns around the increased use of NPS, and by the Committee's involvement that's raised that to an all-Wales and all agency consideration which has been a huge benefit to us.

Recognising the importance of education. Education especially around young people in empowering choices is critical. And it is raising that on a national scale so that the debate around NPS usage, linked to the new legislation that is going to come in in April, can be critical to all forces and all partner agencies working together. And by working with the Committee we've raised that on an all-Wales scale."

Atodiad B: Trawsgrifiad fideo – effaith yr ymchwiliad atal VTE

Cafodd y fideo o Dr Simon Noble, Cyfarwyddwr Meddygol Cymru, Thrombosis UK - a welir ar dudalen 15 ein hadroddiad - ei ffilmio ar 1 Mawrth 2016 yn y Senedd, Bae Caerdydd. Rhoddwyd araith Dr Noble fel rhan o Dderbyniad Dydd Gŵyl Dewi y Llywydd, i ddathlu llwyddiannau'r Pedwerydd Cynulliad. **Gellir gweld y fideo ar-lein.**

Dr Simon Noble, Cyfarwyddwr Meddygol Cymru, Thrombosis UK

"I'm basically here to thank the Assembly for what they've done to shine a light on an underappreciated problem. And, by doing it, ultimately, I know that lives have been saved and avoidable harm has been reduced.

Several years ago, whilst representing the views of patients affected by hospital-acquired thrombosis, it became very clear that people really didn't understand it or get it. Whenever you'd speak to someone about clots, they would always think about long-haul flights and yet you're 1,000 times more likely to get a clot by being a hospital in-patient. As Dame Rosemary said, 'You don't ask, you don't get', so we approached members of the Health and Social Care Committee to ask them whether they would consider looking into this issue as a matter of urgency. We were very mindful that they get many different issues that they're asked to prioritise, but every person we approached listened carefully, asked very sensible and pertinent questions, and we were delighted when they agreed to have a one-day inquiry into the prevention of hospital-acquired thrombosis.

They listened to a breadth of stakeholders, clinical advice, and they took on every recommendation that came from this. Not only that, but when the report came through, the initial response had been—when it was debated—just to acknowledge the recommendations, but the members of that committee vociferously pushed for this to be more than just acknowledged and taken on board, but actually for this issue to be made a tier 1 priority. Through doing this it has made this a massive priority in healthcare, and rather than having a draconian approach to tell us as healthcare professionals what to do, the edict was, 'Advise us how you want to sort this problem out. We recognise it is problem; we recognise it needs to be sorted.' It was an excellent example of engagement with experts and working with us to sort this problem out.

We therefore came up with a solution that not only changed practice, but changed attitudes. That way, one could actually grow the improvements. Only yesterday there was a UK alliance for health improvement, in which one of the members of our committee spoke about how this is the best example of healthcare improvement that has come from Wales. I'm very proud to be part of that. I'm very proud of the people who've put so much time into this. In particular, it's given us opportunities to, rather than just deal with what we set out to do, we've expanded it. We're now looking at specific areas: prevention of clots in patients receiving chemotherapy and public campaigns—the Ask About Clots campaign, the Cancer, Chemo and Clots campaign. Also, it's allowed us to do research which is now considered world leading. The leading research about patient experience from thrombosis is being done from Wales.

So, I would like to thank the Assembly for all the work they've done to support us, for all the work I know they'll do to continue to support us. Thank you very much."

Atodiad C: Trawsgrifiad fideo – effaith yr ymchwiliad i dechnolegau meddygol

Cafodd fideo Dr Nazia Hussain, ymarferydd cyffredinol a chynrychiolydd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu (RCGP) Cymru - ar dudalen 25 ein hadroddiad - ei ffilmio ar 25 Chwefror 2015. Roedd yn dilyn cinio anffurfiol y gwnaethom ei gynnal cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ein hadroddiad i drafod ein argymhellion ac ymateb Llywodraeth Cymru gyda'r tystion. **Gellir gweld y fideo ar-lein.**

Dr Nazia Hussain, Ymarferydd Cyffredinol a chynrychiolydd RCGP Cymru

“My name’s Dr Hussain and I’m a GP practising in south Wales and I’m here representing the Royal College of General Practitioners. So, I think that’s something that came up today really: the scope of the definition of medical technologies is absolutely huge. So, as was mentioned, it ranges from a little plaster up to the high-end surgical technologies, so I think that’s one issue that has come up in this inquiry is how you actually define a medical technology. Obviously, medical technology to me, as a general practitioner, will mean something different to someone who’s a surgeon in a hospital. I was pleased with the recommendations because I felt it echoed some of the things that I came to give evidence about: the fact that we need someone to evaluate medical technologies to see if they’re actually effective clinically, as well as looking at the overall economic impact, and then introducing actually the patient impact as well, because I think that’s a very important thing to consider when you’re introducing medical technologies—it has to be acceptable to the receiving patient as well. The Government’s response seemed very promising from that point of view. Quite a few of our recommendations have been taken into account and I look forward to seeing what happens in the future and how actually these recommendations are implemented.”